



GWEITHDREFN WEITHREDU SAFONOL
AR GYFER DEFNYDDIO TECHNOLEG
ADNABOD WYNEBAU BYW YN AGORED

Marcio amddiffynnol:	Swyddogol
Cynllun cyhoeddi Oes/Nac oes:	Nac oes
Teitl:	Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y Defnydd Gweithredol Agored o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw
Fersiwn:	Fersiwn 1.0
Crynodeb:	Mae'n sefydlu gweithdrefnau ar gyfer Defnyddio technoleg Adnabod Wynebau Byw i gefnogi ymgyrchoedd plismona.
Adran:	Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad adolygu:	11/11/2021

Fersiwn	Dyddiad	Awdurdod	Tystiolaeth o gymeradwyo	Cofnod o newid
0.1	18.06.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Drafft Cychwynnol
0.2	14.06.2021	Adolygiad Uwch-dîm Rheoli'r Is-adran Gwasanaethau Digidol	Y Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Dim Diwygiadau
0.3	04.11.2021	Trosolwg o'r Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Mân Ddiwygiadau
0.4	09.11.2021	Adolygiad Uwch-dîm Rheoli'r Is-adran Gwasanaethau Digidol	Y Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Mân Ddiwygiadau
1.0	11.11.2021	Adolygiad yr Uwch-Swyddog Cyfrifol	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis	Dim Diwygiadau

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
2 Cymhwyso.....	3
3 Terminoleg.....	3
4 Awdurdod i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw.....	4
5 Dyddiad, Amser, Hyd a Lleoliad y Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw	6
6 Llunio Rhestrau Gwyllo	8
7 Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw	12
8 Rheoli Risg a Lefelau Adnoddau	12
9 Cynllunio a Threfnu Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw	14
10 Rolau Gweithredol ym maes Adnabod Wynebau Byw.....	14
Tîm Rheoli Technoleg Adnabod Wynebau Byw	14
Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw	15
Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw.....	15
11 Ar ôl Defnyddio'r Dechnoleg	18
12 Siart Lif yn Crynhoi'r Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw.....	19
13 Diogelwch Rhaglen Adnabod Wynebau Byw.....	22
14 Cadw Data a Rheoli Data.....	22
15 Gwybodaeth Gyswllt.....	23
16 Dogfennau Eraill	24

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yng Ngweithdrefn Weithredu Safonol Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yr ystyr a roddir iddynt yn Nogfen bolisi Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw oni chânt eu diffinio fel arall yn y Weithdrefn Weithredu Safonol hon ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw.

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol hon yn esbonio'r gweithdrefnau safonol sydd i'w mabwysiadu wrth gynllunio ar gyfer technoleg Adnabod Wynebau Byw a'i defnyddio i gefnogi ymgyrchoedd plismona. Bydd cydymffurfio â'r Weithdrefn Weithredu Safonol yn helpu i sicrhau ymateb corfforaethol i'r defnydd o'r adnodd plismona hwn.

2 Cymhwyso

- 2.1 Mae'n rhaid i holl swyddogion a staff Heddlu De Cymru, gan gynnwys teulu estynedig yr heddlu a'r rhai sy'n gweithio'n wirfoddol neu o dan gontract i'r Comisiynydd fod yn ymwybodol o holl bolisiâu a gweithdrefnau cysylltiedig Heddlu De Cymru.
- 2.2 Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol hon yn gymwys yn arbennig i swyddogion a staff yn y rolau canlynol:-
- a) Pob swyddog gweithredol ac aelod o staff yr heddlu, sydd mewn lifrai neu sy'n dditectif, a'u goruchwylwyr sy'n ymwneud â chynllunio a Defnyddio technoleg adnabod wynebau byw;
 - b) Pob swyddog heddlu ac aelod o staff yr heddlu sy'n cymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad dilynol, sy'n deillio o'r Defnydd gweithredol o dechnoleg adnabod wynebau byw;
 - c) Pob Swyddog Awdurdodi
 - d) Y tîm rheoli gweithredol ar gyfer unrhyw Ddefnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebau byw (Aur, Arian ac Efydd);
 - e) Gweithredwyr Technoleg Adnabod Wynebau Byw, Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw a Pheirianwyr Systemau Adnabod Wynebau Byw.

Noder: Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr.

3 Terminoleg

- 3.1 Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol yn canolbwyntio'n llwyr ar dechnoleg adnabod wynebau byw. Diffinnir terminoleg sy'n ymwneud â'r dechnoleg yn Nogfen Bolisi Heddlu De Cymru ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw.

4 Awdurdod i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

- 4.1 Fel arfer, dylai'r awdurdod a roddir gan Swyddog Awdurdodi i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw i gefnogi ymgyrch blismona gael ei wneud gan swyddog nad yw islaw rheng Uwch-arolygydd. Dylid cofnodi'r awdurdodiad yn ysgrifenedig.
- 4.2 Cyn i'r Swyddog Awdurdodi roi awdurdod a chyn i'r dechnoleg adnabod wynebau byw gael ei defnyddio mewn manau cyhoeddus, rhaid cwblhau nifer o ddogfennau a rhaid i'r Swyddog Awdurdodi ymgysylltu ag un o swyddogion Heddlu De Cymru ar reng Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu¹. Er nad yw Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu yn rhoi awdurdod i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw, mae ymgyngori yn digwydd ar y lefel hon er mwyn amlygu'r Defnydd arfaethedig o'r dechnoleg i lefel uwch o feddwl strategol, lle y rhoddir cymaint o ystyriaeth â phosibl i faterion sy'n ymwneud â De Cymru gyfan. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyngor Prif Swyddogion yr Heddlu wahardd y dechnoleg rhag cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu ofyn i'r Swyddog Awdurdodi pa fesurau lliniaru sydd eu hangen eu mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd.
- 4.3 Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi hysbysu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Heddlu De Cymru (neu aelod dynodedig o staff) cyn i'r dechnoleg gael ei defnyddio bob amser.
- 4.4 Os na all Swyddog Awdurdodi ddarparu ei benderfyniad yn ysgrifenedig, gellir rhoi ei awdurdodiad ar lafar. Wedyn, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi gofnodi'r awdurdodiad llafar yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- 4.5 Mae awdurdod y Swyddog Awdurdodi:-
- a) yn gorfod cyfleu nod dilys defnyddio'r dechnoleg a'r pwerau cyfreithiol y dibynnir arnynt i gefnogi'r defnydd o'r dechnoleg;
 - b) yn golygu bod y Swyddog Awdurdodi yn fodlon bod y defnydd o'r dechnoleg yn cydymffurfio â Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw onid awdurdodir fel arall;
 - c) yn gorfod, o safbwynt Deddf Hawliau Dynol 1998, gyfleu (i) sut a pham mae defnyddio'r dechnoleg yn angenrheidiol (ac nid dim ond yn ddymunol) a (ii) yn gymesur i gyflawni nod dilys defnyddio'r dechnoleg;
 - d) yn gorfod, o safbwynt Deddf Diogelu Data 2018, gyfleu ei bod yn gwbl angenrheidiol at ddibenion gorfodi'r gyfraith Heddlu De Cymru; yn golygu bod 'angen cymdeithasol dybryd' ac nad yw'n rhesymol ymarferol diwallu'r angen hwn gan ddefnyddio dulliau llai ymwithiol, naill ai am fod yr heddlu wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio tactegau llai ymwithiol neu am fod yr heddlu yn credu, yn rhesymol ddigon, fod y tactegau hynny yn annhebygol o fod yn effeithiol; a
 - i. Ei bod yn angenrheidiol ar o leiaf un o'r seiliau canlynol (y sail (seiliau) i'w chadarnhau (cadarnhau) gan y Swyddog Awdurdodi):-

¹ Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu – Mae 'rheng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu' yn dynodi swyddog sydd ar reng Prif Gwnstabl Cynorthwyol neu reng uwch.

- a. Ei bod yn angenrheidiol at ddibenion² plismona cyfreithlon Heddlu De Cymru am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd; a /neu
 - b. Ei bod yn angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder; a /neu
 - c. Ei bod yn angenrheidiol er mwyn diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg; a
- ii. Ei bod yn angenrheidiol waeth pa ddisgwyliadau a all fod gan bobl yn unol â'u hawliau dynol o dan Erthygl 8 o ran yr hawl i fywyd preifat a theuluol, yn ogystal â hawliau dynol eraill a ystyrir gan y Swyddog Awdurdodi;
- e) yn gorfod cyfleu bod y Swyddog Awdurdodi wedi ystyried y mesurau diogelwch arfaethedig ar gyfer y defnydd o'r dechnoleg a'r mesurau diogelwch a geir yn Nogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw a'i fod o'r farn bod y Defnydd dan sylw o'r dechnoleg yn ddefnydd cymesur o bwerau plismona wrth ystyried eu defnyddio a'u cydbwysu yng nghyd-destun ystyriaethau sy'n ymwneud â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Diogelu Data 2018;
- f) yn golygu bod y Swyddog Awdurdodi yn fodlon bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd er mwyn sicrhau bod cyfansoddiad y Rhestr Wylïo yn cydymffurfio â Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw, gan gynnwys y meini prawf cyfreithlondeb, rheidrwydd a chymesuredd;
- g) yn gorfod cyfleu unrhyw awdurdod i gynnwys categorïau ychwanegol o bobl ar y Rhestr Wylïo, gan gynnwys y meini prawf cyfreithlondeb, rheidrwydd a chymesuredd, yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u cynnwys er mwyn cyflawni diben defnyddio'r dechnoleg;
- h) yn golygu bod y Swyddog Awdurdodi yn cyfarwyddo bod yn rhaid i bob swyddog heddlu / aelod o staff sy'n ymwneud â'r defnydd o'r dechnoleg fod wedi cael hyfforddiant Heddlu De Cymru ar dechnoleg adnabod wynebau byw yn unol â Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw;
- i) yn golygu bod y Swyddog Awdurdodi o'r farn bod y defnydd o'r dechnoleg yn gymesur â'r dybiaeth bod y manteision a ddisgwylir o ganlyniad i ddefnyddio'r dechnoleg yn drech
- na'r pryderon a'r effeithiau a allai fod mewn perthynas â hawliau dynol pobl a hawliau sy'n ymwneud â chydraddoldebau;
- j) yn golygu bod y Swyddog Awdurdodi yn fodlon bod y mesurau rheoli yn yr Asesiad

² Diffinnir hyn fel “yn angenrheidiol er mwyn arfer swyddogaeth sydd gan berson drwy ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith” yn Neddf Diogelu Data 2018. Fel arfer, hon fydd y sail y dibynnir arni er mwyn cefnogi defnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau byw am ei bod yn cydnabod y pwerau plismona a roddir i Gwnstabl.

o'r Effaith ar Ddiogelu Data, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu hadolygu a'i fod o'r farn eu bod yn fesurau lliniaru priodol ar gyfer y defnydd o'r dechnoleg.

- 4.6 Mewn achosion lle mae angen gweithredu ar frys caiff swyddog islaw rheng Uwch-arolygydd, ond nid islaw rheng Arolygydd, awdurdodi defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw i gefnogi ymgyrch blismona os bydd yn fodlon bod angen awdurdodiad o'r fath fel mater o frys. Rhaid i bob awdurdodiad gydymffurfio â'r gofynion a nodir ym mharagraff 4.4
- 4.7 Byddai sefyllfaoedd lle y byddai angen rhoi awdurdod ar frys
- yn cynnwys y canlynol:-
- a) sefyllfa lle bo bygythiad uniongyrchol i fywyd neu berygl uniongyrchol o niwed difrifol i bobl neu eiddo; a /neu
 - b) cyfle'n ymwneud â chudd-wybodaeth / cyfle i ymchwilio heb fawr ddim amser i weithredu, y mae ei ddifrifoldeb neu'r manteision a allai ddeillio ohono yn golygu bod angen gweithredu ar frys.
- 4.7 Os rhoddir awdurdod o dan y meini prawf ar gyfer gweithredu ar frys uchod, dyletswydd y Swyddog Awdurdodi sy'n ei roi yw hysbysu swyddog ar reng Uwch-arolygydd neu reng uwch, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, o'r bwriad i ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw a'r rhesymau pam. Wedyn, yr Uwch-arolygydd sy'n gyfrifol am awdurdodi i'r defnydd o'r dechnoleg barhau, gwneud newidiadau i'r awdurdod sy'n angenrheidiol yn ei farn ef neu gyfarwyddo bod yn rhaid i'r defnydd o'r dechnoleg ddod i ben.
- 4.8 Os caiff diben gorfodi'r gyfraith pellach ei nodi ar ôl i'r Swyddog Awdurdodi roi awdurdod i ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw, ni chaniateir prosesu data mewn perthynas â'r diben gorfodi'r gyfraith oni fydd y Swyddog Awdurdodi yn rhoi awdurdod pellach i wneud hynny. Byddai awdurdod o'r fath yn ystyried cyfreithlondeb, rheidrwydd a chymesuredd defnyddio'r dechnoleg er mwyn cyflawni'r diben gorfodi'r gyfraith ac a yw'n cyd-fynd â'r diben gorfodi'r gyfraith gwreiddiol.

5 Dyddiad, Amser, Hyd a Lleoliad y Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebaw Byw

- 5.1 Dylai'r Swyddog Awdurdodi ddiffinio'r dyddiad, yr amser a'r lleoliad yr awdurdodir defnyddio'r dechnoleg ar eu cyfer ac am ba hyd y caiff ei defnyddio.
- 5.2 Yn ystod unrhyw ymgyrch blismona lle y defnyddir y dechnoleg, rhaid gosod arwyddion yn cyhoeddi bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio mewn mannau amlwg ymlaen llaw y tu allan i'r Parth Adnabod. Diben hyn yw hysbysu aelodau o'r cyhoedd am bresenoldeb technoleg

adnabod wynebau byw a rhoi digon o amser iddynt arfer eu hawl i beidio â cherdded i mewn i'r Parth Adnabod.

- 5.3 Os bydd unigolion yn penderfynu peidio â cherdded drwy'r Parth Adnabod nid yw'r weithred hon ynddi'i hun yn cyfiawnhau defnyddio pŵer plismona. Rhaid i staff Heddlu De Cymru sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch hon fod yn atebol am eu gweithredoedd eu hunain ac arfer eu pwerau yn unol â'r gyfraith a'r Cod Moeseg.
- 5.4 Hefyd, fel arfer dylid cynnig rhagor o wybodaeth am y dechnoleg i unrhyw aelod o'r cyhoedd yr ymgysylltir ag ef fel rhan o ymgyrch lle mae technoleg adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio. Dylid rhoi gwybodaeth gyswllt am dîm gweithredol technoleg adnabod wynebau byw Heddlu De Cymru i unrhyw unigolyn y mae angen gwybodaeth ychwanegol am y dechnoleg arno (FRT@South-Wales.police.uk).

6 Llunio Rhestrau Gwyllo

- 6.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â llunio a rheoli Rhestrau Gwyllo i'w defnyddio pan ddefnyddir technoleg adnabod wynebaw byw. Rhaid i restrau gwyllo i'w defnyddio gyda Systemau Adnabod Wynebaw Byw fod yn benodol i weithrediad neu i amcan plismona diffiniedig. Rhaid i Restrau Gwyllo fodloni'r meini prawf canlynol:-
- a) rhaid iddynt gael eu hadolygu bob amser cyn i'r dechnoleg gael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod pob delwedd yn bodloni'r meini prawf rheidrwydd a chymesuredd ar gyfer cynnwys delweddau, ac ni ddylai cyfansoddiad y Rhestr Wyllo fod yn ormodol at ddiben defnyddio'r dechnoleg;
 - b) dim ond delweddau a ddelir yn gyfreithlon gan Heddlu De Cymru y dylent eu cynnwys;
 - c) dim ond pan fydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd er mwyn sicrhau bod y ddelwedd yn ddelwedd o unigolyn y bwriedir ei gynnwys ar Restr Wyllo benodol y dylid defnyddio delweddau;
 - d) ni ddylid eu mewnfario i'r rhaglen adnabod wynebaw byw fwy na 24 awr cyn dechrau defnyddio'r dechnoleg er mwyn sicrhau bod y Rhestr Wyllo yn gyfredol.
- 6.2 Bob tro y defnyddir y dechnoleg rhaid nodi a dogfennu'n benodol a yw'r Rhestr Wyllo yn cynnwys unigolion y credir neu yr amheuir eu bod o dan (i) 18 oed a (ii) o dan 13 oed.
- 6.3 Oherwydd y potensial ar gyfer Ffactorau System sy'n ymwneud ag oedran, mae angen rhoi sylw arbennig i bwysigrwydd dod o hyd i bobl ifanc o dan 18 oed gan ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar risg yn unol â Dogfennau Heddlu De Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod yr achos rheidrwydd yn cael ei gyflwyno'n llawn.
- 6.4 Os bwriedir defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw i ddod o hyd i blentyn o dan 13 oed, rhaid rhoi sylw arbennig i ragweld problemau o ran perfformiad y rhaglen adnabod wynebaw byw. Rhaid ceisio cyngor penodol (ar yr adeg hon) gan yr Adran Gwaith Achos Cyfreithiol Arbennig a thîm Technoleg Adnabod Wynebaw Byw Heddlu De Cymru cyn ceisio awdurdodiad gan Swyddog Awdurdodi. Os ceisir awdurdodiad wedyn, bydd angen i'r cyngor hwn gael ei roi i'r Swyddog Awdurdodi.

6.5 Mae enghreifftiau o ddelweddau y gellir ystyried eu bod yn briodol i'w cynnwys ar Restr Wyllo adnabod wynebau byw yn cynnwys:-

a) lluniau o unigolion a dynnwyd yn y ddalfa:-

- i. y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal; a /neu
- ii. y mae'r heddlu yn awyddus i'w harestio; a /neu
- iii. sy'n destun gorchymyn llys, amodau mechnïaeth neu gyfyngiad arall a fyddai'n cael ei dorri (eu torri) pe byddent yn yr ardal ar adeg y Defnydd o'r dechnoleg; a /neu
- iv. unigolion coll yr ystyrir eu bod yn agored i niwed/yn wynebu risg; a/neu
- v. a allai achosi niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill.

b) lluniau'r heddlu nas tynnwyd yn y ddalfa sy'n cynnwys y canlynol (mae hyn yn gofyn am asesiad fesul achos):-

- i. unigolion y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal; a /neu
- ii. unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt; a /neu
- iii. unigolion sy'n destun gorchymyn llys, amodau mechnïaeth neu gyfyngiad arall a fyddai'n cael ei dorri (eu torri) pe byddent yn yr ardal ar adeg y Defnydd o'r dechnoleg; a /neu
- iv. unigolion coll yr ystyrir eu bod yn agored i niwed/yn wynebu risg; a/neu
- v. unigolion sy'n peri risg iddyn nhw eu hunain neu i eraill (sy'n gofyn am awdurdod Swyddog Awdurdodi).

6.6 Ni ddylid ystyried delweddau nad ydynt wedi dod o'r heddlu i'w cynnwys ar Restr Wyllo heb awdurdod ffurfiol y Swyddog Awdurdodi.

Categoriâu o Restrâu Gwyllo

6.7 Fel arfer, mae'n briodol cynnwys sawl Categori o Restr Wylio ar gyfer un Defnydd o'r dechnoleg. Mae hyn yn helpu i reoli'r risg sy'n gysylltiedig â'r Rhybuddion a gynhyrchir ac yn sicrhau bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio yn effeithlon.

Mae'r Rhestrau Gwyllo hyn yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

a) Unigolion a Amheuir neu unigolion y mae'r heddlu yn Chwilio amdanynt ar hyn o bryd mewn cysylltiad â throseddau yn Ne Cymru.

Er mwyn i unigolyn gael ei restru fel Unigolyn a Amheuir neu Unigolyn y mae'r Heddlu yn Chwilio amdano ar systemau Heddlu De Cymru, bydd yr angen i'w harestio ac a yw'n gymesur gwneud hynny eisoes wedi'u hystyried. Er mwyn sicrhau cymesuredd, fel arfer bydd hyn yn gyfyngedig i ardaloedd y gwyddys bod yr unigolion hynny yn byw neu'n cyflawni troseddau ynddynt.

b) Unigolion â gwarantau heb eu cyflawni neu y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal am ryw reswm arall yn ardal Heddu De Cymru.

Mae'r llysoedd eisoes wedi ystyried a oes angen dod o hyd i'r categori hwn o unigolion ac wedi cyfarwyddo y dylid eu harestio. Mae pobl o'r fath yn peri risg i'r cyhoedd yn gyffredinol. O dan amgylchiadau o'r fath a gan nodi bod hyn wedi'i gyfyngu i'r unigolion hynny y mae'r llysoedd yn awyddus i'w dal yn ardal weithredu Heddlu De Cymru, mae'n briodol ystyried a ddylid defnyddio technoleg adnabod wynebau byw i ddod o hyd i'r bobl hyn.

c) Unigolion y nodwyd eu bod yn addas i'w cynnwys ar Restr Wylio Adnabod Wynebau Byw pan fo diben dod o hyd i'r unigolion hyn yn cyd-fynd â nodau dilys defnyddio'r dechnoleg a dyletswyddau o dan y gyfraith gyffredin.

O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r ymyrraeth â'r cyhoedd sy'n mynd heibio i'r system adnabod wynebau byw yn fwy, gyda'r angen i ddefnyddio'r dechnoleg eisoes wedi'i brofi. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfle i dechnoleg adnabod wynebau byw ddiogelu'r cyhoedd ymhellach drwy ddod o hyd i bobl y mae

Heddlu De Cymru yn chwilio amdanynt, pobl sydd ar goll neu sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg mewn rhyw ffordd arall a phobl yr ystyrir eu bod yn unigolion risg uchel.

Rhaid i'r defnydd a wneir o Restrau Gwylio hefyd helpu i gyflawni nod dilys defnyddio'r dechnoleg a rhoi sylw i'r ystyriaethau sy'n ymwneud â chyfansoddiad y Rhestrau Gwylio, yn arbennig am fod ychwanegu unrhyw ddelwedd at Restr Wylion yn golygu prosesu data'r unigolyn hwnnw ac ymyrryd â'i Hawliau o dan Erthygl 8. Am y rhesymau hyn, mae angen i'r penderfyniad i gynnwys unigolion ar Restr Wylion gael ei nodi'n llawn yn y rhaglen adnabod wynebau byw a'i awdurdodi gan y Swyddog Awdurdodi.

O dan amgylchiadau lle mae angen ychwanegu unigolyn at Restr Wirio fel mater o frys, y swyddog ymchwilio sydd yn y sefyllfa orau i asesu'r angen i ddod o hyd i unigolyn a pham mae defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn angenrheidiol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau. Bydd y swyddog ymchwilio hefyd yn deall pa gamau sydd wedi'u cymryd er mwyn ceisio dod o hyd i'r unigolyn neu pam na allai opsiynau eraill fod yn ymarferol o dan yr amgylchiadau. Os bydd swyddog ymchwilio yn penderfynu defnyddio technoleg adnabod wynebau byw, dylai gofnodi ei benderfyniad a'i resymau yn NICHE neu Control Works. Rhaid i'r swyddog ymchwilio gysylltu â'r tîm gweithredol technoleg adnabod wynebau byw i drefnu bod unigolion yn cael eu hychwanegu at y Rhestr Wylion a sicrhau ei fod yn parhau i adolygu'r defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebau byw yn rheolaidd. Pan na fydd angen i unigolyn fod ar Restr Wylion mwyach, rhaid i'r swyddog ymchwilio gysylltu â'r tîm technoleg adnabod wynebau byw er mwyn trefnu i'r unigolyn gael ei dynnu oddi ar y rhestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

6.8 Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi ystyried natur y defnydd a wneir o'r dechnoleg adnabod wynebau byw wrth ystyried cyfansoddiad y Rhestr Wylion er mwyn sicrhau nad yw'n cynnwys gormod o bobl. Mae ffactorau a all fod o blaid ychwanegu unigolion at Restr Wylion yn cynnwys:-

- a) bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio mewn ardal y mae nifer mawr o bobl yn mynd drwyddi;
- b) bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio mewn ardal a fynychir gan aelodau o'r cyhoedd sydd ond yn aros yno am gyfnod byr;
- c) bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio mewn ardaloedd lle mae cuddwybodaeth, gwybodaeth arall a/neu brofiad y Swyddog Awdurdodi yn golygu ei bod yn rhesymol amau y gellid dod o hyd i unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt gyda chymorth y dechnoleg;
- d) gellid, o bosibl, wella diogelwch y cyhoedd drwy gynnwys yr unigolion hynny ar y Rhestr Wylion.

7 Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw

7.1 Asesiadau; Ar gyfer pob ymgyrch adnabod wynebaw byw a awdurdoddir, mae angen i'r asesiadau canlynol gael eu llunio, eu hadolygu a'u diwygio lle y bo angen:-

- (i) Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data* (Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu);
- (ii) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb* (Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu);
- (iii) Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned* (Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu);
- (iv) Hunanasesiad y Comisiynydd Camerâu Gwylidwriaeth* (Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu);

Noder: *Mae unrhyw asesiad a restrir uchod sy'n dangos 'Adolygu/Diwygio/Mabwysiadu' eisoes wedi'i lunio gan dîm technoleg adnabod wynebaw byw Heddlu De Cymru. Bydd angen ystyried pob un fesul achos er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn dal i fod yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer pob ymgyrch adnabod wynebaw byw.

8 Rheoli Risg a Lefelau Adnoddau

- 8.1 Dylid bob amser gynnal asesiad risg o'r Defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn unol â gweithdrefn Heddlu De Cymru. Dylid cydbwysu'r risg ddisgwyliedig i swyddogion a'r cyhoedd â darlun cyffredinol cudd-wybodaeth, ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig ag unigolion sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Wyllo (e.e. difrifoldeb troseddau ac arwyddion rhybudd sy'n gysylltiedig â'r defnydd o drais, cario arfau a thuedd i ddianc, ac ati), yr amgylchedd ffisegol o amgylch yr ardal lle y defnyddir y dechnoleg, amseriad, tensiwn cymunedol ac unrhyw ffactorau eraill yr ymddengys eu bod yn berthnasol.
- 8.2 Mater i dîm rheoli'r ymgyrch yw penderfynu faint o adnoddau, gan gynnwys adnoddau wrth gefn, sydd eu hangen i gefnogi'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw.
- 8.3 O ystyried lefel yr ymyrraeth sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r dechnoleg ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n mynd drwy'r Parth Adnabod a'r angen i brosesu data biometrig, mae'n hanfodol bod y tîm rheoli yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael er mwyn ymateb yn effeithiol i Rybuddion a chyflawni diben gorfodi'r gyfraith y mae'r dechnoleg yn cael ei defnyddio ar ei gyfer.
- 8.4 Bydd Peirianwyr Systemau Adnabod Wynebaw Byw ar gael i gefnogi'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw a bydd ganddynt gerbydau addas lle y bo angen.
- 8.5 Rhaid i bob swyddog ac aelod o staff Heddlu De Cymru sy'n cymryd rhan mewn ymgyrch lle y defnyddir technoleg adnabod wynebaw byw gydymffurfio â gofynion Heddlu De Cymru o ran Cymorth Cyntaf a, lle y bo'n berthnasol, y gofynion o ran hyfforddiant diogelwch i swyddogion a sicrhau eu bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Rhaid i bob swyddog ac aelod o staff Heddlu De Cymru sy'n cymryd rhan mewn ymgyrch lle y defnyddir

technoleg adnabod wynebau byw gael hyfforddiant adnabod wynebau byw cyn iddynt gymryd rhan yn yr ymgyrch.

9 Cynllunio a Threfnu Defnyddio Technoleg Adnabod Wynebaw Byw

- 9.1 Fel rhan o broses cynllunio defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw a chyn i'r Swyddog Awdurdodi awdurdodi defnyddio'r dechnoleg, dylid ymgynghori â thîm technoleg adnabod wynebaw byw Heddlu De Cymru (gan gynnwys Peirianwyr Systemau Adnabod Wynebaw Byw) ynghylch priodoldeb ac ymarferoldeb defnyddio'r dechnoleg.

10 Rolau Gweithredol ym maes Adnabod Wynebaw Byw

Tîm Rheoli Technoleg Adnabod Wynebaw Byw

- 10.1 Rhaid i'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw gael ei ategu gan stwythur rheoli clir. Diffinnir y rolau canlynol at ddibenion llunio strwythur rheoli hierarchaidd priodol:-

a) Comander Aur (Uwch-arolygydd neu'n uwch³); Dim ond un Comander Aur sydd bob tro y defnyddir technoleg adnabod wynebaw byw. Y Comander Aur sy'n rheoli'r ymgyrch yn strategol a rhaid iddo sicrhau bod ei 'fwriad strategol' yn cydfynd â'r Ddogfen Awdurdod Ysgrifenedig. Y Comander Aur sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau bod y defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebaw byw yn parhau i fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd y Comander Aur hefyd yn cydgysylltu, yn ôl yr angen, â swyddogion ar reng Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Gall y Comander Aur hefyd gyflawni rôl y Swyddog Awdurdodi.

b) Comander Arian (Prif Arolygydd neu'n uwch); Dim ond un Comander Arian sydd bob tro y defnyddir technoleg adnabod wynebaw byw. Mae'r Comander Arian yn atebol i'r Comander Aur. Y Comander Arian sy'n rheoli'r defnydd o'r dechnoleg yn dactegol ac mae'n gyfrifol am ei roi ar waith yn dactegol. Mae gan y swyddog hwn awdurdod llwyr i atal y defnydd o'r dechnoleg dros dro neu ei derfynu yn ôl ei ddisgresiwn. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y defnydd a wneir o dechnoleg adnabod wynebaw byw a'r broses o'i roi ar waith yn dactegol yn parhau i fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur tra bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio, gan roi sylw arbennig i effeithiolrwydd y mesurau diogelwch sydd ar waith tra bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio.

c) Comander Efydd (Rhingyll neu'n uwch); Rhoddir cyfrifoldebau rheoli gweithredol i Gomanderaid Efydd gan y Comander Arian. Mae Comanderaid Efydd yn atebol i'r Comander Arian. Dylai Comanderaid Efydd fod yn bresennol mewn lleoliadau lle y defnyddir technoleg adnabod wynebaw byw oni chyfarwyddir fel arall gan y Comander Arian. Gall fod mwy nag un Comander

³ Noder, lle mae'r meini prawf gweithredu ar frys (para 4.4) wedi'u cymhwyso, gall y Comander Aur fod ar reng Arolygu. Fodd bynnag, dylai hyn ddychwelyd i Uwch-arolygydd neu'n uwch cyn gynted ag y bydd Uwch-arolygydd yn adolygu'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r dechnoleg ac yn rhoi awdurdod i'r defnydd o'r dechnoleg barhau.

Efydd yn amodol ar ofynion a bennir gan y Comander Arian. Pan fydd mwy nag un Comander Efydd, rhaid i'r Comander Arian ddogfennu cyfrifoldebau a phrotocolau rheoli yn ddigon eglur a sicrhau eu bod yn cael eu deall yn llawn gan bob swyddog ac aelod o staff sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch lle y defnyddir y dechnoleg adnabod wynebau byw.

- 10.2 Os bydd y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw yn rhan o ymgyrch blismona gyffredinol ehangach, gellir defnyddio'r termau Comander Aur, Comander Arian a Comander Efydd (fel y'u disgrifiwyd uchod) yn lle terminoleg arall a ddefnyddir ar gyfer tîm rheoli neu eu cynnwys mewn strwythur rheoli mwy fel y bo'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni'r ymgyrch blismona gyffredinol yn effeithiol.

Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw

- 10.3 Mae Gweithredwyr Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn cael hyfforddiant cyn iddynt allu cymryd rhan mewn ymgyrchoedd. Eu rôl yw monitro ac asesu Rhybuddion a gynhyrchir gan raglenni, cyn gweithio gyda Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw (yn ôl yr angen) i benderfynu a oes angen Ymgysylltu.
- 10.4 Rhaid i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw gofnodi pob Rhybudd er mwyn helpu i hwyluso a chefnogi adolygiadau'r tîm rheoli tra bydd y dechnoleg yn cael ei defnyddio a'r adolygiadau a gynhelir ar ôl i'r dechnoleg gael ei defnyddio. Rhaid i'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw hysbysu'r Comander Arian am unrhyw bryderon sydd ganddo ynghylch perfformiad y system adnabod wynebau byw.
- 10.5 Dylai log y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw gynnwys y canlynol:-

- a) asesiad y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebau Byw o bob Rhybudd fel rhan o'r cymorth y mae'n ei roi i'r Swyddog Ymgysylltu wrth Ddyfarnu ynghylch Rhybuddion cyn gwneud unrhyw benderfyniad i Ymgysylltu;
- b) y penderfyniad a wnaed ynghylch p'un a ddylid Ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd ai peidio;
- c) a gyflawnwyd proses Ymgysylltu yn llwyddiannus a chanlyniad y broses Ymgysylltu.

Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw

- 10.6 Rhaid i Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw ddeall y rhaglen adnabod wynebau byw, sut mae'n perfformio a pha effaith y gallai Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun a'r System a Ffactorau Amgylcheddol ei chael.
- Rhaid i'r swyddogion hyn gael sesiwn frifio weithredol lawn cyn defnyddio'r dechnoleg. Gall y swyddogion hyn gael eu rhoi ar leoliad mewn lifrai neu ddiplad plaen.
- 10.7 Wrth Ymgysylltu ag aelod(au) o'r cyhoedd, rhaid i Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebau Byw sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n gyfreithlon ac mewn modd priodol a chymesur. Rhaid i swyddogion gydymffurfio â'r Cod Moeseg bob amser. Lle y bo'n bosibl, dylid rhoi taflen wybodaeth am dechnoleg adnabod wynebau byw i aelodau o'r cyhoedd yr Ymgysylltwyd â nhw.

- 10.8 Gall Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw fod o blaid Ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd. Fodd bynnag, y Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol bob amser ynghylch a ddylid Ymgysylltu ag unigolyn⁴. Ni ddylai fod yn ganlyniad awtomatig bod Rhybydd yn arwain at Ymgysylltu. Wrth wneud eu penderfyniadau, rhaid i Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw roi sylw dyledus i'r tebygolrwydd y bydd Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun neu'r System neu Ffactorau Amgylcheddol yn dylanwadu ar b'un a gynhyrchir Rhybudd ai peidio.
- 10.9 Pan gychwynnir proses Ymgysylltu, y swyddogion sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch sy'n gyfrifol am ymchwilio i bwy yw'r unigolyn yr Ymgysylltir ag ef gan ddefnyddio dulliau priodol a chyfreithlon sydd ar gael iddynt.
- 10.10 Er y gall swyddogion arfer eu disgrisiwn eu hunain wrth ddefnyddio eu pwerau i arestio unigolion a'u cadw yn y ddalfa, polisi Heddlu De Cymru yw na ddylid ystyried, fel arfer, fod Rhybudd a gynhyrchir gan raglen adnabod wynebaw byw ar ei ben ei hun, sy'n nodi bod yr heddlu yn chwilio am unigolyn, yn sail ddigonol dros arestio unigolyn na'i gadw yn y ddalfa. Dylai swyddogion bob amser geisio gwneud digon o ymholiadau ychwanegol er mwyn bodloni eu hunain bod ganddynt sail ddigonol dros arestio unigolyn neu ei gadw yn y ddalfa. Os byddant yn wynebu unigolyn sy'n gwrthod ufuddhau a'u bod yn credu'n ddiffuant, o dan yr amgylchiadau, fod yn rhaid iddynt ddefnyddio eu pwerau i arestio unigolyn/cadw unigolyn yn y ddalfa cyn i unrhyw wiriadau eraill allu cael eu gwneud, a bod hyn yn arwain at ddefnyddio'r pwerau hynny, dylid gwneud gwiriadau pellach (yn ôl yr angen) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn i'r penderfyniad i arestio unigolyn/cadw unigolyn yn y ddalfa gael ei adolygu heb oedi diangen.
- 10.11 Os na ellir adnabod unigolyn yr Ymgysylltwyd ag ef neu os nad yw'n cadarnhau pwy ydyw, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn gyfystyr â throedd ac nid yw'n golygu, o reidrwydd, y gellir ei arestio. Rhaid i swyddogion fod mewn sefyllfa i gyfiawnhau'r defnydd o unrhyw bwerau ac unrhyw gamau a gymerwyd a bod â sail gyfreithlon dros wneud hynny.
- 10.12 Ar ôl unrhyw Ymgysylltu (sy'n dilyn Rhybudd), rhaid i'r Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw hysbysu'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw am ganlyniad yr Ymgysylltu hwnnw
- 10.13 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn dewis arfer ei hawl i osgoi Parth Adnabod rhaglen adnabod wynebaw byw, atgoffir swyddogion nad yw hyn yn drosedd. Nid oes gan yr heddlu unrhyw bwerau cyfreithiol i orchymyn i aelodau o'r cyhoedd fynd i mewn i Barth Adnabod na'u cymell i wneud hynny. Nid yw hyn yn golygu na all, neu na ddylai, Swyddogion Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw na swyddogion eraill sy'n cyflawni rôl ategol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw, ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd fel y byddent yn ei wneud o dan amgylchiadau eraill lle mae ymddygiad neu bresenoldeb unigolyn yn codi amheuan na defnyddio unrhyw bŵer plismona arall os bydd yn iawn ac yn briodol gwneud hynny.

⁴ Y peth pwysig yn hyn o beth yw na ddylai'r Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw fod yn gwneud penderfyniad y dylai Swyddog Ymgysylltu ymgysylltu ag unigolyn. Fodd bynnag, rhaid i Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw ddilyn gorchmynion cyfreithlon a roddir gan oruchwylwyr o hyd. Felly, mae'n rhaid i unrhyw swyddog ffurfio ei 'sail resymol dros amau' ei hun (a all ddibyynu ar wybodaeth a ddarperir gan eraill) a/neu ddeall yn glir y sail gyfreithlon dros unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd.

Peirianwyr Systemau Adnabod Wynebau Byw


10.14 Mae Peirianwyr Systemau Adnabod Wynebau Byw wedi cael hyfforddiant technegol uwch ar sut i ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw (gweler Dogfen Bolisi Heddlu De Cymru ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw am ragor o wybodaeth). Peirianwyr Systemau Adnabod Wynebau Byw sy'n gyfrifol am osod y cyfarpar adnabod wynebau byw a sicrhau bod y system yn perfformio cystal â phosibl.

11 Ar ôl Defnyddio'r Dechnoleg

- 11.1 Bob tro ar ôl defnyddio technoleg adnabod wynebau byw rhaid i'r Comander Arian sicrhau bod gwerthusiad ar ôl defnyddio'r dechnoleg yn cael ei gynnal a gaiff ei ddiweddarau yng Nghofnod Defnyddio'r Rhaglen. Rhaid i'r broses werthuso gynnwys asesiad o effeithiolrwydd gweithredol y defnydd o'r dechnoleg. Dylai'r gwerthusiad hwn fod yn un ansoddol a meintiol.
- 11.2 Dylai'r gwerthusiad nodi'n glir pa fesurau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd a pha feini prawf meincnodi a ddefnyddir. Dylai hefyd asesu effeithiolrwydd y mesurau diogelwch a oedd ar waith pan ddefnyddiwyd y dechnoleg a pha gyfleoedd sydd i'w gwella ar gyfer unrhyw ddefnydd a wneir o'r dechnoleg yn y dyfodol a sut y caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu.
- 11.3 Gall y gwerthusiad gynnwys cynifer o fesurau ag sy'n ymddangos yn briodol, ond dylai gynnwys y metrigau canlynol o leiaf (gan gynnwys y dulliau a ddefnyddiwyd i'w cael):-
- a) cyfanswm yr unigolion a chyfanswm y delweddau a gynhwyswyd ar y Rhestr Wyllo (gall fod mwy nag un ddelwedd o rai unigolion);
 - b) cyfanswm y delweddau o wynebau a nodwyd yn y ffrwd fideo a oedd o ansawdd digonol ar gyfer chwilio yn erbyn y Rhestr Wyllo (h.y. roedd y rhaglen adnabod wynebau byw yn gallu cynhyrchu Templed ar eu cyfer);
 - c) cyfanswm y Rhybuddion a gynhyrchwyd gan y rhaglen adnabod wynebau byw;
 - d) cyfanswm y Rhybuddion nad ydynt yn arwain at Ymgysylltu;
 - e) cyfanswm y Rhybuddion lle y gwnaed penderfyniad i Ymgysylltu ag unigolyn;
 - f) cyfanswm y Rhybuddion y cadarnheir eu bod yn rhybudd gwirioneddol (yr unigolyn yw'r unigolyn y mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn awgrymu mai ef ydyw);
 - g) cyfanswm y Rhybuddion y cadarnheir eu bod yn rhybudd anwir (nid yr unigolyn yw'r unigolyn y mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn awgrymu mai ef ydyw);
 - h) cyfanswm y Rhybuddion cywir sy'n arwain at Ymgysylltu nad oes angen i'r heddlu gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â nhw;
 - i) canlyniad pob achos lle yr ysgogir yr heddlu i gymryd camau yn dilyn Rhybudd;
 - j) nifer y bobl yr Ymgysylltwyd â nhw, lle nad oedd yr Ymgysylltu wedi digwydd o ganlyniad i Rybudd, gan gynnwys y rhesymau a'r canlyniad.

12 Siart Llif yn Crynhoi'r Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau
Byw

Live Facial Recognition




Live Facial Recognition


Pre-Deployment Activity

LFR Deployment Summary


Completion of LFR application explaining how the proposed use of LFR is based on an intelligence case. The AO considers the application and records decision in a written authority document. Performance metrics determined




LFR Deployment



Summary of typical LFR deployment.



Post-Deployment Activity



13 Diogelwch Rhaglen Adnabod Wynebau Byw

13.1 Mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn cynnwys nifer o fesurau diogelwch ffisegol a thechnegol. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- a) trosglwyddir y delweddau i'r rhaglen adnabod wynebau byw gan ddefnyddio dyfais USB wedi'i hamgryptio neu drwy Gysylltiad diogel i Rwydwaith Preifat Rhithwir Heddlu De Cymru;
- b) Mae'r rhaglen adnabod wynebau byw yn system gwbl gaeedig â dwy haen o ddiogelwch cyfrinair i gael mynediad i'r rhaglen;
- c) mae'r rhaglen adnabod wynebau byw wedi'i diogelu'n ffisegol pan fydd yn cael ei defnyddio a chaiff data ar gyfer y defnydd o'r dechnoleg sy'n cael eu storio ar y system eu dileu'n ddiogel bob tro ar ôl defnyddio'r dechnoleg;
- d) caiff rheolaethau mynediad seiliedig ar rôl â chaniatadau defnyddiwr cyfyngedig eu rhoi ar waith ar y rhaglen adnabod wynebau byw;
- e) gellir cysylltu'r rhaglen adnabod wynebau byw â dyfeisiau symudol gan ddefnyddio pwynt mynediad preifat â thair lefel o ddiogelwch; Cyfeiriadau IP penodol, mynediad cyfrinair i'r pwynt mynediad a mynediad cyfrinair i'r Ap symudol. Mae gan yr ap symudol API RESTful a bydd wedi'i gwmpasu gan SSL;
- f) mae'r Dangosfwrdd ac API RESTful wedi'u diogelu gan SSL a TLS yn ddiofyn; a chaiff pob cysylltiad ei gyfeirio drwy HTTPS;
- g) cynhelir archwiliad llawn o bob gweithred wedi'i chychwyn gan ddefnyddiwr a gyflawnir tra bydd technoleg adnabod wynebau byw yn cael ei defnyddio;
- h) ymdrinnir â phroblemau technegol gyda'r system adnabod wynebau byw bob tro gan Beirianwyr Systemau Adnabod Wynebau Byw sy'n rhan o'r ymgyrch.

14 Cadw Data a Rheoli Data

14.1 Rhaid i Heddlu De Cymru sicrhau bod unrhyw ddata sy'n gysylltiedig â'r rhaglen adnabod wynebau byw yn cael eu prosesu mewn ffordd gyfreithlon yn unol â dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebau byw. Mae hyn yn golygu:-

- a) os na fydd y rhaglen technoleg adnabod wynebau byw yn cynhyrchu Rhybudd, y caiff data biometrig unigolyn eu dileu'n awtomatig ar unwaith;
- b) y caiff y data a ddelir ar y cof bach USB wedi'i amgryptio a ddefnyddir i fewnforio'r Rhestr Wyllo eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.

14.2 Os bydd y rhaglen adnabod wynebau byw yn cynhyrchu Rhybudd, caiff yr holl ddata personol eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr.

14.3 Caiff yr holl ddeunydd teledu cylch cyfyng o'r Defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw ei ddileu o fewn 31 diwrnod, ac eithrio pan y'i cedwir:-

- a) yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996; a/neu
- b) yn unol â pholisïau cwynion/ymchwilio i ymddygiad Heddlu De Cymru
- c) Er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth, mae gan y rhaglen adnabod wynebaw byw allu archwilio llawn a chedwir log y Gweithredwr Technoleg Adnabod Wynebaw Byw a'r Swyddog Ymgysylltu Adnabod Wynebaw Byw yn unol â chyfnodau cadw safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.
- d) Dylid hysbysu'r Swyddog Awdurdodi, y Comander Aur a Swyddog Diogelu Data Heddlu De Cymru am unrhyw achos o golli neu ddwyn unrhyw galedwedd adnabod wynebaw byw (gliniadur, dyfais symudol, camera ac ati) neu unrhyw ddata eraill, p'un a oedd(ent) wedi'i diogelu (wedi'u diogelu) drwy amgryptio ai peidio.

Cofrestr Defnyddio'r Dechnoleg

Rhaid cofnodi'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw bob amser ar gofrestr a ddelir yn ganolog. Bydd y gofrestr hon yn cofnodi nifer o bethau gan gynnwys:-

- a) enw a rheng y Swyddog Awdurdodi ac aelodau'r tîm rheoli;
- b) dyddiad, amser, hyd a lleoliad y defnydd o'r dechnoleg;
- c) ystadegau am gyfansoddiad y Rhestr Wyllo (heb gynnwys unrhyw ddata personol);
- d) nifer y Rhybuddion a'r gwahanol ystadegau sy'n ymwneud â nhw;
- e) nifer yr Ymgysylltiadau a'u canlyniadau;

14.7 Bydd Heddlu De Cymru yn trefnu bod gwybodaeth am y defnydd o dechnoleg adnabod wynebaw byw ar gael i'r cyhoedd yn unol â Dogfennau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â thechnoleg adnabod wynebaw byw.

15 Gwybodaeth Gyswllt

15.1 Gellir cysylltu â thîm technoleg adnabod wynebaw byw Heddlu De Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol; FRT@South-wales.police.uk.

16 Dogfennau Eraill

16.1 Mae dogfennau eraill ar gael sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol sy'n berthnasol i dechnoleg adnabod wynebau byw. Nodir y dogfennau hyn isod.

- a) Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer Rheoli Gwybodaeth; www.app.college.police.uk/appcontent/information-management;
- b) Y Model Penderfynu Cenedlaethol; www.app.college.police.uk/app-content/nationaldecision-model;
- c) Rheoli Cudd-wybodaeth Genedlaethol; www.app.college.police.uk/appcontent/intelligence-management;
- d) Cod Moeseg y Coleg Plismona; www.app.college.police.uk/code-ofethics;
- e) Strategaeth Biometreg y Swyddfa Gartref – Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018; www.gov.uk/government/publications/home-office-biometrics-strategy;
- f) Dyfarniad yr Uchel Lys – R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl De Cymru [2019] EWHC 2341 (Gwein); www.judiciary.uk/wpcontent/uploads/2019/09/bridges-swp-judgment-Final03-09-19-1.pdf.